# PWYLLGOR SAFONAU 12 Hydref, 2009

**YN BRESENNOL: AELOD ETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Margaret Griffith.

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa.

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL:** Mr David Clay.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Keith Greenly –Jones a Stephen Churchman. Derbyniwyd ymddiheuriad hefyd oddi wrth y Swyddog Monitro oedd yn mynychu cyfarfod arall yn Nolgellau.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2009, fel rhai cywir.

## 3. MATER YN CODI O’R COFNODION

Cyfeiriwyd at y Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog a chadarnhawyd fod y Protocol diwygiedig wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS.

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro gan y Swyddog Priodoldeb yn cyfeirio at gais y Cynghorydd John Pughe Roberts am ollyngiad i’w alluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau’n ymwneud â chynllun trefniadaeth ysgolion y Cyngor.

Esboniwyd fod y Cynghorydd Roberts yn aelod etholedig o Gyngor Gwynedd yn cynrychioli Corris/Mawddwy. Byddai’r gollyngiad yn berthnasol pan fydd trafodaethau yn effeithio ar Ysgol Dinas Mawddwy lle mae plant ei chwaer yn ddisgyblion.

Atgoffwyd aelodau fod y Pwyllgor hwn wedi penderfynu gosod canllawiau ar gyfer ystyried ceisiadau’n ymwneud â threfniadaeth ysgolion.

Yn ôl y canllawiau byddai *'gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau.'*

Cyfeiriwyd at benderfyniad y Pwyllgor hwn ym mis Mai 2009 pan ystyriwyd ceisiadau tebyg a wnaed gan dri chynghorydd. Bryd hynny penderfynwyd caniatáu gollyngiad i'r tri aelod gymryd rhan yn y trafodaethau o fewn y Panel Adolygu Dalgylch ond gwrthod gollyngiad iddynt pe byddai sefyllfa o gymryd pleidlais yn codi. Gwrthodwyd gollyngiad iddynt i gymryd rhan mewn trafodaethau nac i bleidleisio ar y mater mewn unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor na'r Cyngor llawn.

'Roedd rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau o'r farn y dylid ymdrin â'r cais diweddaraf yn yr un modd. Mynegwyd pryder ganddynt oherwydd fod perygl i'r Pwyllgor ymestyn ffiniau'r canllawiau.

Mewn ymateb, pwysleisiodd aelodau eraill fod y ceisiadau a ystyriwyd ym mis Mai yn cyfeirio at blant dau o'r cynghorwyr a gwraig y trydydd. Nid oeddynt yn credu fod y cais presennol yn disgyn i'r un categori oherwydd bod y cais yn seiliedig ar gysylltiad â phlant chwaer yr ymgeisydd.

Mynegwyd pryder gan aelod y gallasai gosod ffiniau rhy gaeth arwain at benderfyniadau holl bwysig yn cael eu cymryd gan ganran fechan o aelodaeth y Cyngor.

Cytunodd yr aelodau fod yr ymgeisydd wedi gadael rhai cwestiynau ar y ffurflen gais heb eu hateb, a phwysleisiwyd y dylid osgoi hyn yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

**i) Caniatáu gollyngiad i'r aelod gymryd rhan yn y trafodaethau ac i bleidleisio ar faterion a ystyrir gan y Panel Adolygu Dalgylch a chan bwyllgorau'r Cyngor a'r Cyngor llawn.**

**ii) Bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau fod pob ymgeisydd, yn y dyfodol, yn cwblhau'r ffurflen gais gan ateb yr holl gwestiynau.**

## 5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

### i) Penderfyniadau

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro gan y Swyddog Priodoldeb, er gwybodaeth.

O safbwynt penderfyniadau, cyfeiriwyd at achos aelod o Gyngor Tref Abermaw a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon at Banel Dyfarnu Cymru am benderfyniad. Yn dilyn gwrandawiad penderfynodd y Tribiwnlys Achos y dylid diarddel y Cynghorydd am 12 mis rhag bod, neu ddod yn aelod o Gyngor Tref Abermaw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.

Cyflwynwyd copi o ddyfarniad llawn y Tribiwnlys i'r aelodau. Nodwyd bod

dyddiad wedi ei nodi yn y copi Saesneg o'r dyfarniad fel y flwyddyn 2001 yn hytrach na 2008.

Mewn ymateb i'r dyfarniad, nododd y Cadeirydd y gallasai'r Pwyllgor Safonau fod wedi ymdrin â'r achos ac y gallasai profiad o'r fath fod yn fuddiol i'r aelodau.

Yn sgil penderfyniad y Tribiwnlys, cyfeiriodd aelodau'r pwyllgor hwn at yr angen i sicrhau fod hyfforddiant ar gael yn gyson i aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Awgrymwyd y dylid anfon copi o benderfyniad y Tribiwnlys at holl Gynghorau Tref a Chymuned y sir. Nodwyd ymhellach y gellid cyflwyno gwybodaeth yn electroneg.

Cytunwyd y dylai'r Swyddog Priodoldeb a'r Swyddog Monitro ystyried sut y gellid darparu a chyflwyno hyfforddiant i aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Achosion heb benderfyniad**

'Roedd y swyddogion yn ymwybodol o ddwy gŵyn nad yw'r Ombwdsmon wedi penderfynu os yw am ymchwilio iddynt ac un arall lle mae wedi penderfynu cynnal ymchwiliad.

Mewn ymateb i ymholiad, esboniodd y Swyddog Priodoldeb na fyddai'n briodol cyflwyno gwybodaeth bellach ar y materion yma ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth a bod adroddiad yn cael ei darparu ar ddulliau posib o gyflwyno hyfforddiant i aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned.**

**6. AELODAETH**

Cadarnhawyd fod y Panel Ymgynghorol wedi penderfynu argymell penodi Mr Gwyn Williams yn aelod annibynnol ychwanegol o'r Pwyllgor Safonau.

Mae Mr Williams eisoes wedi datgan ei barodrwydd i dderbyn y cynnig a chaiff argymhelliad y Panel ei gyflwyno gerbron y Cyngor llawn ar 22 Hydref 2009 am benderfyniad.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**CADEIRYDD**